

Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin (LAF)

Cofnodion Cyfarfod

Dydd Iau 12 Mawrth 2020

Canolfan Hamdden Caerfyrddin, 6pm

Yn Bresennol: Aelodau:

Mark Hadley (MH) - Cadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol
Richard Leggett (RL)
Mo Rapley (MR)
Geoff Williams (GW)
Jillie Gardiner (JG)
Glyn Evans (GE)
David Stacey (DS)
Gerald Brown (GB)

Ysgrifennydd (dros dro)

Caroline Ferguson (CF) (Rheolwr Mynediad i Gefn Gwlad CSC - Dros Dro)

Ymgynghorwyr / Sylwedyddion / Siaradwyr / Y Cyhoedd

Steve Pilliner (Cyngor Sir Caerfyrddin)
Lucy Pugh (LP) - Cynorthwydd Mynediad i Gefn Gwlad Cyngor Sir Caerfyrddin
Martin Murray (MM) - Swyddog Datblygu hawliau tramwy cyhoeddus Cyngor Sir Caerfyrddin
Rob Williams (RW) – Trail Riders Fellowship (TRF)
Nigel Bailey (NB) – Cerdded Iach Sanclêr
Clive Poulton (CP)
Phillip Morgan (PM) - Arweinydd Tîm Rheoli Tir Cyfoeth Naturiol Cymru
David Bleines (DB) - Swyddog Pobl a Lleoedd Cyfoeth Naturiol Cymru, De Orllewin

Ymddiheuriadau: Aelodau:

Karen Burch (KB) - Is-gadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol
Paul Barrett (PB)
Michael Jones (MJ)

Ymgynghorwyr/Sylwedyddion:

Y Cynghorydd Hazel Evans

Yn Absennol: Jane Evans
Neil Thomas - Cyngor Sir Caerfyrddin

*Mae CSC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Gyngor Sir Caerfyrddin

**Yn y cofnodion hyn, mae CNC yn cyfeirio at Cyfoeth Naturiol Cymru

EITEM	CAMAU GWEITHREDU
<p>Eitem 1 - Croeso a Chyflwyniad</p> <p>Estynnodd MH groeso i bawb i'r cyfarfod a chyflwynodd y sylweddion/ymgynghorwyr newydd.</p>	
<p>Eitem 2 Aelodau newydd/Ymddiswyddiadau</p> <p>CF - Ymddiswyddodd Paul Barrett o'r Fforwm Mynediad Lleol a bydd yn gadael ym mis Tachwedd 2020. Roedd MH a CF wedi anfon neges yn diolch iddo am ei gyfraniad i'r fforwm. CF - Roedd Clive Poulton yn ystyried ymuno â'r Fforwm Mynediad Lleol.</p>	
<p>Eitem 3 - Ymddiheuriadau</p> <p>Daeth ymddiheuriadau i law a chawsant eu cofnodi.</p>	
<p>Eitem 4 – Materion sy'n codi o'r cofnodion - na roddwyd ar yr agenda fel arall</p> <p><u>Codi Rhwystrau ar y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol</u> DS: Roedd y rhwystrau bellach wedi'u codi, ond nid yw wedi arwain at gynnydd sylweddol o ran beiciau modur.</p> <p><u>Atebolrwydd Cyhoeddus Fferm Wynt Brechfa</u> JG: Aros am ragor o wybodaeth gan Gyfoeth Naturiol Cymru ynghylch atebolrwydd ar ôl adeiladu. PM: Ddim yn gyfarwydd â deddfwriaeth pellter cwmpo / cyfraith achosion. Byddai GW / JG yn anfon deddfwriaeth at PM.</p>	GW / JG
<p>Eitem 5 - Rheoli Mynediad Cyhoeddus mewn Hamdden</p> <p>Nid oedd Neil Thomas yn bresennol - trodd y drafodaeth at Reoli Hawliau Tramwy Cyhoeddus (PRoW) cyffredinol:</p> <p>SP: Cyllideb gyfalaf y flwyddyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dyranriad o £50k ychwanegol ar gyfer y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy • arbedion effeithlonrwydd o £7k • Cariwyd £52k ymlaen <p>O ystyried yr arbedion yr oedd angen eu gwneud, nid yw Hawliau Tramwy Cyhoeddus wedi dioddef yn ormodol. Roedd angen ceisio cynifer o wirfoddolwyr â phosibl ynghyd â chynyddu refeniw o Orchmynion.</p>	

<p>Mae dyraniad cyfalaf i Lwybr Dyffryn Tywi. Mae opsiynau cyllido allanol hefyd yn cael eu harchwilio.</p> <p>JG:A fydd Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn cael eu cynnwys fel rhan o'r rhaglen Clefyd Coed Ynn?</p> <p>SP: Y flaenoriaeth fydd mynd i'r afael â'r prif ffyrdd.</p> <p>CF: Yn gyffredinol, ystyrir bod coed ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn risg is a rhoddir sylw iddynt ar sail adweithiol.</p> <p>JG:Mae rhai Awdurdodau Lleol yn adolygu'r diffiniad o Deithio Llesol i gynnwys marchogaeth.</p> <p>SP: A ellir darparu rhagor o fanylion / cyfeiriadau.</p> <p>MH: Pa effaith fydd y gyllideb yn ei chael o ran materion staffio ac ati?</p> <p>SP: Dylai arwain at welliannau yn raddol</p> <p>MH: Beth yw'r diweddaraf ynglŷn â phrosiect Llwybr Dyffryn Tywi?</p> <p>SP: Ar hyn o bryd rydym yn cynnal trafodaethau ynglŷn â thirfeddianwyr, gofynion cynllunio, arolygon ecoleg.</p> <p>CF: Ar hyn o bryd mae Fforwm Mynediad Lleol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cael eu cyngori am lwybr tebyg rhwng Aberhonddu a'r Gelli.</p>	<p>JG</p>
<p>Eitem 6 – Llwybrau'r Sir/Hyrwyddo Cerdded</p> <p>MM: Hoffai'r adran Farchnata hyrwyddo cerdded eleni. Ar hyn o bryd mae teithiau cerdded â thema ar y wefan yn cynnwys Teithiau cerdded ar Lannau Afonydd, Teithiau ar hyd yr Arfordir ac ati. Hoffent ychwanegu at y cynnwys, trwy gynnwys fideos a sylwebaethau ynglŷn â'r teithiau cerdded.</p> <p>Bydd crynodebau o lwybrau y gellir eu hargraffu ar A4 gyda map ar gael ar y wefan, ond gan nad oes gan bawb gyfleusterau argraffu, mae'r llwybrau hefyd ar gael ar Plotaroute (sydd â chyfleuster lawrlwytho GPX), ac mae cyfryngau ac apiau eraill y gellir eu lawrlwytho yn cael eu hystyried.</p> <p>MH: Byddai angen ei hyrwyddo gan nad yw Gweithwyr Twristiaeth yn ôl pob tebyg yn gwybod am hyn.</p> <p>GW: Byddai adborth gan y cyhoedd yn ddefnyddiol.</p> <p>PM: Mae yna hefyd deithiau cerdded a hyrwyddir ar wefan CNC - byddai'n dda cael dolenni dwyochrog ar y gwefannau.</p> <p>RL: Byddai angen sicrhau bod y wybodaeth yn hawdd i bobl ddod o hyd iddi, a'u bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw rwystrau neu wybodaeth berthnasol arall.</p> <p>MM: Byddem hefyd yn hapus i glywed awgrymiadau am deithiau cerdded eraill.</p> <p>CP: Nid oes llawer o wybodaeth am fynediad i'r anabl ar-lein.</p> <p>DS: Byddai'n werthfawr ychwanegu gwybodaeth am fynediad at y deunydd i'w lawrlwytho</p> <p>JG: A oes categorïau ar gyfer mynediad i'r anabl? Byddai'n ddefnyddiol cael gwybod.</p>	<p>MM</p>
<p>Eitem 7 - Diwygio Mynediad</p>	

<p>CF: Cynhaliwyd y gyfres gyntaf o gyfarfodydd y Grwpiau Arbenigol ym mis Chwefror 2020 a disgwylir i'r broses gymryd blwyddyn. Dylai adroddiad drafft o gynigion a lywir gan y 3 grŵp arbenigol fod yn barod i'w gyflwyno i'r Gweinidog erbyn Mawrth 2021.</p> <p>DB: Bydd Fforymau Mynediad Lleol yn cael cyfle i fynegi eu sylwadau.</p>	
--	--

<p>Eitem 8 - Arwyddbyst Hawliau Tramwy Cyhoeddus</p> <p>MM: Roedd 141 o arwyddbyst priffyrdd wedi'u hadnewyddu / gosod dros y 3 blynedd diwethaf. Y weithdrefn arferol yw gosod arwyddbost y briffordd ar ôl i'r holl waith arall ar y llwybr gael ei gwblhau.</p> <p>MH: Awgrymodd y dylid sicrhau bod sticer yn cael ei roi ar bob arwyddbost newydd yn rhybuddio y gallai tynnu'r arwyddbost i lawr neu ymyrryd arno arwain at ddirwy o £1000.</p> <p>CF: Bydd yn rhoi adborth ôl i'r Rheolwr Cynnal a Chadw.</p>	CF
<p>Eitem 9 - Datganiadau Ardal CNC</p> <p>DB: Mae'r fersiwn ar-lein o'r Datganiadau Ardal yn cael ei hadolygu'n barhaus.</p> <p>MH: A all DB ddarparu amlinelliad o beth yw Datganiad Ardal? Mae'r ddogfen Proffil Ardal ar gael ac mae'n werth ei ddarllen.</p> <p>DB: Roedd Datganiadau Ardal yn deillio o Ddeddf yr Amgylchedd ac yn mynd i'r afael â chyflwr ein hadnoddau naturiol a'r heriau a wynebir. <i>Bydd DB yn creu crynodeb o'r sylwadau o ranbarth y De-orllewin.</i></p> <p>MH: Gall gwaith cynaeafu Cyfoeth Naturiol Cymru ddinistrio Hawliau Tramwy Cyhoeddus</p> <p>PM: Dylid adfer unrhyw Hawliau Tramwy Cyhoeddus y mae gwaith cynaeafu yn effeithio arnynt. Os oes unrhyw broblemau, dylid rhoi gwybod amdanynt trwy ffonio 03000 65 3000.</p>	DB
<p>Eitem 10 – Rhwydwaith Beicio Sustrans – Llwybrau i Bawb</p> <p>Bydd y mater yn cael ei drafod yn y cyfarfod nesaf gan nad oedd KB yn bresennol.</p>	
<p>Eitem 11 - Adroddiad Blynyddol y Fforwm Mynediad Lleol</p> <p>MH: Mae'r adroddiad drafft wedi'i anfon at Aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol-rhowch wybod am unrhyw newidiadau sydd eu hangen.</p> <p>RL: A ellir ei lofnodi trwy ohebiaeth cyn cyfarfod nesaf y Fforwm Mynediad Lleol fel y gellir ei gyflwyno yn gynt?</p> <p>MH: Mae'n rhaid cyflwyno unrhyw newidiadau erbyn 12 Ebrill.</p>	Aelodau'r Fforwm
<p>Eitem 12 - Adrodd ar Faterion</p> <p>RL: Rhoddodd RL grynodeb o'i ddadansoddiad o dueddiadau'r materion a nododd fod nifer y materion sydd heb eu datrys yn parhau i gynyddu. Disgwylir yr arolwg blynyddol 5% a ddefnyddir fel Dangosydd Perfformiad cyn hir. Nid oes ffordd hawdd i roi gwybod am faterion yn ymwneud â Ffyrdd Eraill â Mynediad Cyhoeddus gan eu bod yn cael eu cofnodi ar wahanol systemau yn y Cyngor.</p> <p>SP: Gallai'r Fforwm Mynediad Lleol ystyried lobïo Llywodraeth Cymru am adnoddau ychwanegol gan ddefnyddio'r ystadegau materion.</p> <p>RL: Efallai y byddai'n werth mynd at gynrychiolwyr gwleidyddol hefyd.</p>	

Eitem 13 Unrhyw Fater Arall

MH: A all y Fforwm Mynediad Lleol gael y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r Cardi Bach a Phont Felin Gât?

CF: Mae'r Cardi Bach yng nghamau cynnar iawn astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer llwybr aml-ddefnyddiwr. Ar hyn o bryd nid oes yr un darn o'r hen reilffordd yn Hawl Tramwy Cyhoeddus cofrestredig yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r tîm Cyfreithiol yn delio â chais ynglŷn â llwybr troed cyhoeddus ar sail tystiolaeth defnyddwyr ar ran fer o'r llwybr.

Darn o dir yng nghefn y Gerddi Botaneg yw Pont Felin Gât a arferai fod yn agored i'r cyhoedd ei ddefnyddio yn rhad ac am ddim. Fe'i caewyd i'w ailddatblygu y llynedd ac erbyn hyn gallai fod yn destun cais am hawliau cyhoeddus, sy'n cael ei drafod ar hyn o bryd.

GW: Bydd cyfarfod Cadeiryddion Fforymau Mynediad Lleol yfory (13 Mawrth) yn y Drenewydd.

MH: Nid oes unrhyw un o Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin yn gallu mynd.

PM: Mae'r Tir Mynediad Agored ar gau ym Mrechfa ar 21 a 22 Mawrth ar gyfer Beicio Brwnt Dyfed.

JG:Fferm Wynt Brechfa - mae 2 lwybr caniatol â chyfeirnodau yn cael eu creu yng Ngorllewin Brechfa - a fydd ymgynghori ar hyn?

PM: Byddai'n gwirio hyn.

CF: Staffio Hawliau Tramwy Cyhoeddus - rhoddwyd cymeradwyaeth ar gyfer swydd Cynorthwydd Tymor Penodol am 2 flynedd, ynghyd â defnyddio Ymgynghorydd.

Mae Polisi Codi Tâl wedi'i ddatblygu sy'n caniatáu i dirfeddianwyr gael gatiâu i gerddwyr wedi'u gosod yn rhad ac am ddim yn lle celfi sy'n peri mwy o rwystr megis camfeydd. Y gobaith yw y bydd hyn yn arwain at well mynediad.

Roedd disgwyl i'r Strategaeth Farchogaeth fod ar gael ar ffurf drafft ymhen blwyddyn. Bydd rhywfaint o'r strategaeth yn uchelgeisiol yn amodol ar gyllid fel yn achos y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy

PM

Eitem 14 - Eitemau Agenda ar gyfer y dyfodol

- Menter Mynyddoedd Cambria - cyflwyniad gan David Wyn Morgan
- Cyfarfod Cadeiryddion Fforymau Mynediad Lleol
- Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
- Cronfa Gymunedol Fferm Wynt - cyflwyniad gan Moishe Merry
- Strategaeth Farchogaeth
- Rhwydwaith Beicio Sustrans - Llwybrau i Bawb (dygwyd ymlaen)
- Marchnata a Hyrwyddo Cerdded/Teithiau Cerdded Sirol
- Rheoli Mynediad Cyhoeddus mewn Hamdden - Neil Thomas (dygwyd ymlaen)

Eitem 15 - Cyfarfodydd Nesaf

~~11 Mehefin 2020 - Canolfan Tywi, Llandeilo~~ *Wedi'i ohirio o achos Covid19*
10 Medi 2020 - Canolfan Hamdden Caerfyrddin
3 Rhagfyr 2020 - Canolfan Tywi, Llandeilo